GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mae Ysgol Ddawns Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn anelu at ddarparu profiad dawns pleserus ar gyfer disgyblion o bob oedran. Mae athrawesau â chymwysterau uchel yn cynnig dosbarthiadau mewn bale, modern a tap gyda'r bwriad o ddatblygu gwerthfawrogiad a brwdfrydedd tuag at ddawns.

Mae'r Ysgol Ddawns wedi ennill enw da am hyfforddiant ardderchog a adlewyrchir yn y canlyniadau arholiad ar bob lefel. Mae cyn-ddisgyblion wedi ennill llefydd mewn ysgolion a cholegau dawns proffesiynol megis yr *Ysgol Bale Ganolog, Coleg yr Academi Ddawns Frenhinol, Ysgol Bale Hammond, Celfyddydau Theatr Laine, Coleg Stella Mann, Celfyddydau Addysgiadol, Canolfan Ddawns & Drama Glannau Merswy, Coleg Bird, Coleg y Celfyddydau Perfformio yng Nghaergrawnt, Academi Urdang, Italia Conti ayb.*

Athrawesau

Emma O'Brien A.I.S.T.D.
Hyfforddwyd Emma yn Ysgol Ddawns a Drama Whitakers yn Blackpool. Yn dilyn hyn astudiodd yng Nghanolfan Ddawns a Drama Glannau Merswy yn Lerpwl.

Philippa Gilbert A.R.A.D.
Hyfforddwyd Philippa yn Ysgol Bale Elmhurst, Bush Davies a'r Academi Ddawns Frenhinol.

Simone Anthony, A.I.S.T.D.
Hyfforddwyd Simone yng Nghanolfan Ddawns a Drama Glannau Merswy yn Lerpwl.

Mae'r Ysgol Ddawns yn dilyn system graddio'r Academi Ddawns Frenhinol (RAD) ar gyfer Bale a Chymdeithas Imperialaidd yr Athrawon Dawns (ISTD) ar gyfer Modern & Tap. Mae Graddau'r ddau fudiad yn addas ar gyfer plant sy'n mynychu un, dwy neu fwy o wersi'r wythnos ac sy'n mwynhau dawns fel hobi, yn gweithio i gyflawni eu potensial. Rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau cerddorol a dawns fynegiadol.

Rhennir yr holl ddosbarthiadau yn ôl oedran a/neu allu. Mae'r dosbarthiadau Bale yn dechrau o 3 oed, Modern o 5 oed a Tap o 6 oed (yn dibynnu ar y nifer o lefydd sydd ar gael). Cynhelir dosbarthiadau wythnosol o 30 munud, 45 munud neu 1 awr. Ar gyfer y disgyblion iau mae'r pwyslais ar fwynhau. Cyflwynir technegau'n raddol a dilynir rhaglen o ddatblygiad trwy system y Graddau. Mae hyn yn sicrhau na roddir gormod o straen gorfforol ar y disgyblion a bod technegau a geirfa yn cael eu cyflwyno mewn modd pwyllog.

Arholiadau

Mae arholiadau yn fodd defnyddiol o fesur cyflawniad ac fe'u cynllunir i fod o fewn gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion, ond nid ydynt yn orfodol. Ar gyfer y sawl sy'n dymuno cymryd arholiadau, mae angen gwersi ychwanegol fel arfer yn ystod tymor yr arholiad er mwyn rhoi mwy o sylw unigol ac er mwyn helpu'r disgyblion i berfformio gydag hyder ac i gyfarfod â'r safonau uchel a ddisgwylir. Codir tâl ychwanegol ar gyfer y gwersi hyn.

Gwisg

Disgwylir i ddisgyblion Ysgol Ddawns y Ganolfan wisgo'n daclus ac yn addas ar gyfer yr holl ddosbarthiadau dawns, yng ngwisg arbennig yr ysgol ar gyfer eu gradd benodol. Gellir prynu'r holl wisgoedd dawns yn Siop yr Ysgol Ddawns. Efallai na fydd disgyblion newydd yn dymuno prynu'r wisg lawn ar y dechrau ond dylent wneud hynny ar ôl tymor. Mae angen esgidiau bale o'r dechrau.

Siop yr Ysgol Ddawns

Ar agor: Dydd Llun tan dydd Gwener 3.30 p.m. 9.00 p.m. Dydd Sadwrn 9 a.m.- 3.00 p.m.
Ffôn: 01970 621650 E-bost: danceschool@aber.ac.uk